

NEWSLETTER WINTER 2006/7

Manager's message

Welcome to a New Year and the first Glasu newsletter which we hope will let you know what Glasu does and give information on forthcoming events.

As sustainable local development becomes even more important, Glasu can provide information and resources to help develop projects that add value to the local economy. The Glasu website gives access to reports from many of the projects that have already been undertaken. Examples are the Powys Wild Food Project and a feasibility study for Llanidloes into utilising anaerobic digesters to help solve the town's waste and energy problems.

Glasu and the team is a community resource for developing solutions to problems as diverse as how to add value to local food products through to heating your home in a more sustainable way.

If you have an idea you would like to talk through with somebody, you would like some information or you would just like some advice, please contact the Glasu office.

WONDERWOOL WALES - 19th & 20th May 2007

This pioneering event is set to blow you away, with even more exhibitors and features than ever before.

Attractions will include:

- A beautiful array of individually designed and made products,
- Range of demonstrations
- Equipment
- Fleece, yarns, felt and natural dyes
- Knit 'n' Natte
- Medieval spinning by Gracie Tyler
- Woolschool
- Sheep Breed Societies
- Wonder of Wool Competition Exhibition

And lots, lots more!

CALL FOR CREATIVITY IN WELSH WOOL

Designers, artists, makers and creators are encouraged to get busy knitting, sculpting and crafting entries for an exciting competition to celebrate the creative and imaginative uses of Welsh wool.

Winners' entries and the best of the rest will then go on display to an audience of thousands at the Wonderwool Wales showcase at the Royal Welsh Smallholder and Garden Festival in May 2007. There are four separate categories in the Wonder of Wool competition and great prizes including first prize trophies and vouchers to spend at Wonderwool Wales.

For more information on visiting or exhibiting contact Lee 01982 552224 or leepr@powys.gov.uk



LEADER +

LEADER+ is a European Union funded programme to promote the development of rural areas. Its aim is to encourage and help rural areas to think about the longer-term potential of their area. It seeks to encourage the implementation of integrated, high-quality, original strategies for sustainable development based upon innovative approaches towards rural development.

Managed on behalf of the Welsh Assembly Government by the Welsh Development Agency, the LEADER+ programme receives European funding via the Welsh European Funding Office, part of the Welsh Assembly Government.

Glasu is the LEADER+ Programme in Powys. It has a theme of adding value to local natural products and works with people who have project ideas at grassroots level.

NEW HARVEST

Orchard Havens

The "Orchard Doctors", Tony and Liz Gentil, survey orchards and give advice on their planting and management. Whilst doing this work for the Perllanau Powys project, they have uncovered havens rich in wildlife and a wealth of biodiversity.

Amongst the many species abundant in the apple orchards are grassland ant species, lichens and wild flowers such as cowslips, primroses and bluebells. The wild daffodil, a rare plant in Powys, has been recorded in two orchards. The alkaline soils of undisturbed grassland provide a habitat for orchids: the largest collection of greater butterfly orchids in Powys and the relatively uncommon green winged orchid are two of Tony's and Liz's finds.

Old orchards attract birds such as woodpeckers, tree creepers, nuthatches and pied flycatchers and provide a valuable habitat for bats and insects. According to Dr. Emma Durward, Biodiversity Officer for Powys County Council, "The most numerous British populations of the noble chafer beetle, a rare species in Britain, were recorded in orchards."

Because of their value as a wildlife resource, the orchards of Powys are recognised as one of the 17 most important habitats in the 10-year Powys Local Biodiversity Action Plan which outlines actions to protect some of the county's most threatened species and habitats.



The Perllanau Powys Project, with the help of the "Orchard Doctors," advised orchard owners, delivered training and surveyed selected orchards in the county. Popular workshops they have run have helped aspiring orchard growers find out more about choosing and planting their trees and have trained owners of existing orchards in pruning and harvesting their fruit.

There are helpful tips for new and existing growers in a series of orchard management information sheets which can be downloaded from the Glasu website, at www.glasu.org.uk or contact Sally Shiels, Project Officer at Glasu for a copy.

WILLOWS IN POWYS OPEN DAY

Your chance to learn more about the planting and management of willows from the experts. A talk and tour of the site will take place at 11am and 1pm, with opportunities to purchase cuttings, planting packs, garden structures, plus a wide range of other willow products.

Venue: Llysdinam Field Centre, Newbridge-on-Wye
Date: 31st March 2007
Time: 10am – 3pm
Cost: Free

Contact:

Postal address: Glasu, Antur Gwy, Park Road,
Builth Wells, Powys LD2 3BA
Telephone: 01982 552224
e.mail: glasu@powys.gov.uk
web-site: www.glasu.org.uk



FARMERS' MARKETS IN POWYS

Many of the food producers that Glasu has supported through the New Harvest Project, including the Elan Valley Mutton Company and Caroline's Real Bread Company, sell directly to the public at their local farmers' market. Farmers' markets can help reduce food miles, reduce food packaging, encourage more environment-friendly farming practices and stimulate local economies. They're also a fun, family-friendly way of finding out exactly how and where your food is produced!

Brecon

2nd Saturday of the month, 10.00am-2.00pm (excluding August)
Market Hall, Brecon Contact: Fiona Jones 01874 610008

Knighton


4th Saturday of the month, 10.00am-1.00pm
Knighton Community Centre
Contact: Tom Taylor 01547 520096

Llandrindod Wells

Last Thursday of the month, 9.00am-2.00pm
Middleton Street, Llandrindod Wells Contact:
Michiel Bleese, 01597 824102

Welshpool

1st Friday of the month, 9.00am-2.00pm
Town Hall, Welshpool
Contact: Mark Jarvis 01686 626606



CAMBRIAN
MOUNTAIN
WILLOW

FOR ALL YOUR WILLOW NEEDS

On the lower slopes of the ancient and picturesque Cambrian Mountains, we grow and supply over sixty varieties of willow of many colours, textures and sizes suitable for a host of sculptural, craft, garden, structural and fuel uses. Our willow coppice is managed in a sustainable manner with a professional appreciation of the delicate balance between wildlife, ecology and agriculture.

WONDERFUL WILLOW

Whether you're a gardener, weaver, designer, engineer, interested in renewable energy or a keen amateur, we have the willow you need to bring your projects to life.

Website: www.cambrianmountainwillow.co.uk

E-mail: Cambrian@mountainwillow.orangehome.co.uk

Tel: 01597 860677 Mobile: 07904418080

ENERGY AND WASTE

Happy bins make greener schools

Children in Powys junior schools have led their schools to adopt a rubbish free environment through a scheme designed to reduce the amount of waste sent to landfill and incineration. They learn to use the "Four R's": refuse, reduce reuse and recycle.

The project begins with a bi-lingual puppet show by professional company Vagabondi and pupils go on to involve themselves in weighing and recording the levels of waste generated. They then use their IT skills to access the Happy Bins website and track their schools' progress.

The schools involved initially were Aberhafesp, Abermule, Dolfor, Maesyrhandir, Dafydd Llwyd, Caersws, Llandinam, Llangurig and Dyffryn Trannon, and Machynlleth After School Club. A visit to the web site shows the remarkable progress the schools have made.

The project was first piloted by Ecodyfi and managed by Bev Dimmock. The web site was designed and managed by Cyberium and Ian Mitchell of the Green Egg company planned the lessons and materials for schools. In 2007 the project will be taken up by schools in South Powys. For information visit the Happy Bins website at www.ecodyfi.org.uk/happybin/index.htm or contact Sue Thompson Project Officer at Glasu.



Vagabondi perform
at Caersws

LOCAL PROVENANCE TREES

GROWING TREES FROM SEED

The success rate for the survival of trees grown from locally collected seed is greatly improved due to their suitability to the environment. Such trees also provide a more reliable habitat for wildlife and benefit the local economy.

Throughout Autumn 2006, as part of the Tree Nurseries of Powys project, Glasu's Project Officer, Cliff Webb, organised a number of training events for anyone interested in growing native trees. Well attended workshops were held at Radnorshire Wildlife Trust's reserve at Gilfach, the Elan Valley Visitor Centre, and at Penpont organic estate near Sennybridge. These workshops were aimed at those intending to start a business growing native trees.

Also, during Tree Council's annual *Seed Gathering Season*, in October 2006, the project participated in tree-seed collection events for children from four Powys schools (Forden, Leighton, Castle Caereinion and Guilsfield).

Pupils were shown how to clean, sort and store the seeds to ensure they germinate next spring and grow into saplings. These and other wood related activities in the Welshpool area were being organised through the "From Seed to Saw" project, supported by the Forestry Commission's Forest Education Initiative.



Children from local
primary schools gather
seeds.

For further information on these projects or local provenance native trees visit the Tree Nurseries of Powys website:

www.nativetrees.org.uk

Planting native trees this autumn/winter?

Contact **Tree Nurseries of Powys** for free, impartial advice on:

- The best trees to plant.
- Local suppliers of native trees
- Why plant local provenance trees

Want to reduce your costs?

How about growing your own trees from seed?

Tree Nurseries of Powys could help. We offer:

- Advice on growing native trees from seed.
- Grants to start up a tree nursery.
- Support for growers with saving costs, marketing, publicity, etc.

For more information, see our website: www.nativetrees.org.uk or contact Cliff Webb tel. 01982 552224 or e-mail: cliffw@powys.gov.uk



Local Provenance Trees are native trees grown from seed collected in the local area.

They are therefore better adapted:

- They survive and thrive better, particularly in the challenging environments of upland Wales
- Avoids the need for replacement/replanting of failures

They are better for local biodiversity:

- Many native trees are still grown from imported seed.
- These start growing, flowering and fruiting at very different times upsetting the fine balance between woodlands and the wildlife they support.



CYLCHLYTHYR Y GAEAF 2006/7

Neges y Rheolwr

Croeso i Flwyddyn Newydd ac i gylchlythyr cyntaf Glasu. Rydym yn gobeithio y bydd yn rhoi gwybod i chi beth mae Glasu'n ei wneud ac yn rhoi gwybodaeth ar ddigwyddiadau sydd ar y gweill.

Wrth i ddatblygu lleol cynaliadwy ddod yn bwnc mwy llosg, gall Glasu rhoi gwybodaeth ac adnoddau i helpu i ddatblygu prosiectau sy'n ychwanegu gwerth i'r economi lleol. Mae gwefan Glasu'n cynnwys adroddiadau ar sawl prosiect sydd eisoes wedi digwydd. Yn eu plith mae Prosiect Bwyd Gwylt Powys ac astudiaeth dichonoldeb yn Llanidloes ar ddefnyddio treuliwr anerobig i helpu i ddatrys problemau gwastraff ac ynni'r dref.

Adnodd cymunedol yw Glasu a'r tîm ar ddatblygu atebion i broblemau sy'n amrywio o sut i ychwanegu gwerth i gynnyrch bwydydd lleol, i wresogi'ch cartref mewn dull mwy cynaliadwy.

Os oes gennych syniad a'ch bod am ei drafod gyda rhywun, neu fod angen gwybodaeth neu gyngor arnoch, cysylltwch â swyddfa Glasu.

GWYRTHWLÂN CYMRU – 19 a 20 Mai 2007

Bydd y digwyddiad arloesol hwn yn ddigon o gyffro, gyda hyd yn oed rhagor o arddangoswyr a nodweddion i'ch difyrru.

Bydd gweithgareddau'n cynnwys:

- Dewis hyfryd o gynnyrch sydd wedi'u cynllunio a'u cynhyrchu'n unigol.
- Amrywiaeth o arddangosfeydd,
- Offer
- Cnu, edafedd, ffelt a llifynnau naturiol,
- 'Knit 'n' Natter'
- Troelli o'r canol oesoedd gan Gracie Tyler
- Ysgol Wlân
- Cymdeithasau Bridiau Defaid
- Arddangosfa Cystadleuaeth Gwyrthwlân

A llawer mwy!

GALW AR BOBL I FOD YN GREADIGOL GYDA GWLÂN CYMRU.

Mae dylunwyr, artistiaid, gwneuthurwyr a chrewyr yn cael eu hannog i fwrw ati i wau, cerflunio a saernïo eitemau ar gyfer cystadleuaeth gyffrous sy'n dathlu'r defnydd creadigol a dychmygol o wlân Cymru.

Bydd yr eitemau buddugol a goreuon y gweddill yn cael eu harddangos i gynulleidfa o filoedd ar stondin Gwyrthwlân Cymru yng Ngŵyl Tyddynwyr a Gerddi Cymru ym mis Mai 2007. Bydd pedwar categori ar wahân yn y gystadleuaeth Gwyrthwlân, gyda gwobrau gwych, yn cynnwys tlysau i'r buddugwyr a thocynnau i'w gwario yng

Ngwyrthwlân Cymru. Am wybodaeth a ffurflenni cais, cysylltwch â Lee ar 01982 552224 neu leepr@powys.gov.uk neu ewch i www.wonderwoolwales.co.uk



LEADER +

Rhaglen dan nawdd yr Undeb Ewropeaidd yw **LEADER +** er mwyn hyrwyddo datblygu ardaloedd gwledig. Ei nod yw annog a helpu ardaloedd gwledig i feddwl am botensial hirdymor yr ardal. Mae'n ceisio annog gweithredu strategaethau integredig, gwreiddiol o ansawdd uchel ar ddatblygu cynaliadwy, sy'n seiliedig ar agweddau arloesol tuag at ddatblygu cefn gwlad.

Mae'n cael ei reoli gan Awdurdod Datblygu Cymru ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae'r rhaglen Leader + yn derbyn nawdd Ewropeaidd trwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Glasu yw Rhaglen Leader + Powys. Ei thema yw ychwanegu gwerth at gynnyrch naturiol lleol, ac mae'n gweithio gyda phobl ar lawr gwlad sydd â syniadau am brosiectau

CYNHAEAF NEWYDD

Noddfeydd Perllannau

Mae'r "Meddygon Perllannau", Tony a Liz Gentil, yn arolygu perllannau ac yn rhoi cyngor ar blannu a'u rheoli. Wrth fynd ati i wneud y gwaith hwn i Brosiect Perllannau Powys, maent wedi dod ar draws noddfeydd sy'n gyfoeth o fywyd gwylt ac yn llawn bioamrywiaeth.

Ymhlith y gwahanol rywogaethau sy'n ffynnu yn y perllannau afalau mae mathau o forgrug glaswelltir, cennau a blodau gwylt megis briallen Fair sawrus, briallu a chlychau'r gog. Gwelwyd y daffodil gwylt sy'n brin iawn ym Mhowys, mewn dwy berllan. Mae pridd alcalinaidd glaswelltir sydd heb ei droi yn gynefin i degeirianau. Daeth Tony a Liz o hyd i'r casgliad mwyaf o degeirianau llydanwyrdd mawr ym Mhowys a thegeirian y waun sy'n eithaf anghyffredin.

Mae hen berllannau'n denu adar megis cnocell y coed, y dringwr bach, cnocell y cnau a'r gwybedog brith, ac yn gynefin gwerthfawr iawn i ystlumod a phryfed. Yn ôl Dr. Emma Durward, Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Sir Powys, "Mewn perllannau y gwelwyd y nifer fwyaf ym Mhrydain o'r chwilod 'noble chafer' sy'n brin ym Mhrydain."

Oherwydd eu gwerth fel adnodd bywyd gwylt, cydnabir perllannau

Powys fel un o'r 17 o gynefinoedd pwysicaf yng Nghynllun 10 mlynedd Powys ar weithredu Bioamrywiaeth Leol. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu'r camau i warchod rhai o rywogaethau a chynefinoedd y Sir sydd o dan fygythiad pennaf.



Gyda chymorth y "Meddygon Perllannau", mae Prosiect Perllannau Powys wedi rhoi cyngor i berchnogion perllannau, yn ogystal â rhoi hyfforddiant ac arolygu rhai perllannau o fewn y Sir. Trefnwyd gweithdai poblogaidd i helpu darpar dyfwyr perllannau i ddysgu mwy am ddewis a phlannu eu coed, gan hyfforddi perchnogion perllannau presennol ar docio a chynaeafu eu ffrwythau.

Mae cyfres o daflenni gwybodaeth ar gael ar reoli perllannau sy'n cynnwys awgrymiadau defnyddiol i dyfwyr newydd a rhai presennol. Gallwch lawrlwytho'r rhain oddi ar wefan Glasu, www.glasu.org.uk neu cysylltwch â Sally Shiels, Swyddog Prosiect Glasu.

DIWRNOD AGORED HELYG YM MHOWYS

Dyma'ch cyfle chi i ddysgu rhagor gan yr arbenigwyr am blannu a rheoli helyg. Bydd cyfle i sgwrsio a chael golwg ar y safle am 11 am a 1 pm, gyda chyfle i brynu toriadau, pecynnau plannu, strwythurau gardd ac amrywiaeth o gynnyrch helyg eraill.

Lle: Canolfan Maes Llysdinam, y Bontnewydd ar Wy
Dyddiad: 31 Mawrth 2007
Amser: 10am – 3pm
Pris: Am ddim

Cysylltwch â:

Glasu, Antur Gwy, Park Road,
Llanfair-ym Muallt, Powys LD2 3BA
Ffôn: 01982 552224
e-bost: glasu@powys.gov.uk
gwefan: www.glasu.org.uk



MARCHNADOEDD Y FFERMWYR YM MHOWYS

Mae nifer o'r cynhyrchwyr bwyd a gefnogwyd gan Glasu trwy'r Prosiect Cynhaeaf Newydd, gan gynnwys yr Elan Valley Mutton Company a Caroline's Real Bread Company, yn gwerthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd ym marchnadoedd y ffermwyr lleol. Mae Marchnadoedd y Ffermwyr yn helpu i dorri milltiroedd bwyd, lleihau'r maint o ddeunydd pacio a ddefnyddir, annog arferion amaethu sy'n gydnaws â'r amgylchedd ac ysgogi economïau lleol. Maent hefyd yn ffordd hwyliog i'r teulu cyfan ganfod sut ac ymhle y caiff eich bwyd ei gynhyrchu!

Aberhonddu

2il ddydd Sadwrn y mis, 10.00 am – 2.00 pm (heblaw mis Awst), Neuadd y Farchnad, Aberhonddu.

Cysylltwch â Fiona Jones 01874 610008

Tref-y-clawdd

4ydd dydd Sadwrn y mis, 10.00 am – 1.00 pm, Canolfan Gymuned Tref-y-clawdd.

Cysylltwch â Tom Taylor 01547 520096

Llandrindod

Dydd Iau olaf y mis, 9.00am - 2.00 pm, Stryd Middleton, Llandrindod.

Cysylltwch â Michael Bleese, 01597 824102

Y Trallwng

Dydd Gwener cyntaf y mis, 9.00am - 2.00 pm, Neuadd y Dref, Y Trallwng.

Cysylltwch â Mark Jarvis 01686 626606



AR GYFER EICH HOLL ANGHENION HELYG

Ar lethrau isaf Mynyddoedd hynafol a godidog y Cambrian, rydym yn tyfu ac yn cyflenwi dros chwedeg o wahanol fathau o helyg o bob lliw, gwead a maint. Gellir eu defnyddio ym maes cerflunio, crefftau, garddio, strwythurau a thanwydd. Rheolir y goedlan helyg mewn dull cynaliadwy gyda gwerthfawrogiad proffesiynol o'r cydbwysedd cynnil rhwng bywyd gwyllt, ecoleg ac amaethyddiaeth.

HELYG HYFRYD

Os ydych yn arddwr, yn wehydd, yn gynllunydd, yn beiriannydd, neu â diddordeb ym maes ynni adnewyddadwy, neu'n amatur awyddus, mae gennym yr helyg i ddod â'ch prosiectau chi'n fyw.

Gwefan: www.cambrianmountainwillow.co.uk

E-bostl: Cambrian@mountainwillow.orangehome.co.uk

Rhif ffôn: 01597 860677 Ffôn symudol: 07904418080

YNNI A GWASTRAFF

Y Bin hapus' yn arwain at ysgolion gwyrdd

Mae plant mewn ysgolion cynradd ym Mhowys wedi arwain eu hysgolion i fabwysiadu amgylchedd heb sbwriel trwy gynllun i leihau'r gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi ac i'w losgi. Mae'r pwyslais ar leihau, aildefnyddio ac ailgylchu.

Mae'r prosiect yn cychwyn gyda sioe bypedau ddwyieithog gan gwmni proffesiynol 'Vagabondi' ac mae disgyblion yn bwrw ati i bwysu a chofnodi lefel y gwastraff a gynhyrchwyd. Yna maent yn defnyddio'u sgiliau T.G. i fynd i wefan 'Y Bin Hapus' er mwyn cadw golwg ar gynnydd eu hysgol.

Yr ysgolion a fu'n cymryd rhan yn y lle cyntaf oedd Aberhafesb, Aber-miwl, Dolfor, Maesyrrhandir, Dafydd Llwyd, Caersws, Llandinam, Machynlleth a Dyffryn Trannon a chlwb ar ôl ysgol Llangurig. Ewch i'r wefan i weld y cynnydd aruthrol y mae'r ysgolion hyn wedi'i wneud.

Ecodyfi oedd yng ngofal y prosiect hwn i gychwyn, ac yn cael ei reoli gan Bev Dimmock. Cynlluniwyd a rheolwyd y wefan gan Cyberium, ac Ian Mitchell o Gwmni Greenegg a wnaeth gynllunio'r gwersi a'r deunyddiau i'r ysgolion.

Yn 2007 bydd y prosiect yn cael ei ehangu i ysgolion de Powys. Am ragor o wybodaeth ewch i wefan 'Happy Bins' yn www.ecodyfi.org.uk/happybin/index.htm neu cysylltwch â Sue Thompson yn Glasu.



Vagabondi'n perfformio yng Nghaersws.

COED O DARDDIAD LLEOL

TYFU COED O HADAU

Mae coed sy'n tyfu o hadau a gasglwyd yn lleol yn fwy tebygol o fyw oherwydd addasrwydd yr amgylchedd. Bydd coed o'r fath hefyd yn gynefin mwy dibynadwy i fywyd gwyllt ac o fudd i'r economi lleol.

Trwy Hydref 2006, fel rhan o brosiect Planhigfeydd Coed Powys, fe wnaeth Swyddog Prosiect Glasu, Cliff Webb, drefnu hyfforddiant a chyngor i unrhyw un oedd â diddordeb mewn tyfu coed cynhenid. Cynhaliwyd gweithdai yng ngwarchodfa Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Faesyfed yng Ngilfach, yng Nghanolfan Ymwelwyr Cwm Elan ac ar ystâd Organig Penpont ger Pont Senni, gyda nifer go dda yn bresennol. Roedd y gweithdai hyn ar gyfer y rhai oedd am ddechrau busnes yn tyfu coed lleol, ac i unrhyw un oedd â diddordeb yn y pwnc.

Hefyd, yn ystod Tymor Casglu Hadau Cyngor y Coed ym mis Hydref 2006, bu'r prosiect yn cymryd rhan mewn digwyddiadau casglu hadau coed gydag ysgolion Castell Caereinion, Cegidfa, Fford a Thre'r Illia.



Plant yn casglu hadau.

Dangoswyd disgyblion sut i lanhau, didoli a storio'r hadau er mwyn sicrhau eu bod yn egino'r gwanwyn nesaf a thyfu'n glasbrennau. Mae'r gweithgareddau hyn a gweithgareddau eraill sy'n ymwneud â choed yn ardal Y Trallwng yn cael eu trefnu gan brosiect "O'r had i'r lliw", gyda chymorth Menter Addysg Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

Am fanylion pellach ar y prosiectau hyn neu ar goed o darddiad lleol, ewch i wefan Planhigfeydd Coed Powys, sef www.nativetrees.org.uk neu cysylltwch â Cliff Webb.

Yn plannu coed brodorol yr hydref/gaeaf hwn?

Cysylltwch â **Phlanhigfeydd Coed Powys** am gyngor diduedd, rhad ac am ddim ar:

- Y coed gorau i'w plannu
- Cyflenwyr lleol coed brodorol
- Pam y dylech blannu coed o darddiad lleol.

Eisiau lleihau eich costau?

Beth am dyfu eich coed eich hun o hadau?

Gall **Phlanhigfeydd Coed Powys** eich helpu chi. Rydym yn cynnig:

- Cyngor ar dyfu coed brodorol o hadau.
- Grantiau i sefydlu planhigfa goed.
- Cymorth i dyfwyr ar arbed costau, marchnata, cyhoeddusrwydd ac ati.

Am ragor o wybodaeth, ewch i'r wefan: www.nativetrees.org.uk neu cysylltwch â Cliff Webb ar 01982 552224 neu e-bost cliffw@powys.gov.uk



Coed brodorol yw **Coed o darddiad lleol** sy'n cael eu tyfu o hadau a gasglwyd yn lleol.

O ganlyniad, maent yn fwy addas:

- Maent yn byw ac yn ffynnu'n well, yn arbennig o fewn amgylchedd anodd ucheldir Cymru
- Osgoi'r angen i ail-osod neu ail-blannu coed a fethodd.

Maent yn well ar gyfer bioamrywiaeth lleol:

- Mae nifer o'n coed brodol yn dal i gael eu tyfu o hadau a fewnforiwyd.
- Mae'r rhain yn dechrau tyfu, blodeuo a dod i ffrwyth ar adegau gwahanol iawn gan darfu ar y cydbwysedd rhwng coedlannau a'r bywyd gwyllt a welir ynddynt.